auditmatters

Cyflawni **gwasanaethau archwilio o safon uchel i'r sector tai**

auditmatters

Gall llywodraethu gwael arwain at wasanaethau gwael i gwsmeriaid ac ôl-effeithiau difrifol i'ch sefydliad. Mae felly'n bwysig bod gennych fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg ac amgylchedd rheoli mewnol sy'n 'addas i'w bwrpas'.

Mae gormod o reolaeth yn ffrwyno datblygiadau newydd ac yn creu aneffeithlonrwydd. Os nad oes digon o reolaeth gall arwain at fusnes aneffeithlon a gwasanaeth gwael i gwsmeriaid.

Gall Audit Matters ddarparu gwasanaeth priodol i chi sy'n asesu digonolrwydd ac effeithiolrwydd eich amgylchedd rheoli mewnol. Bydd hyn yn seiliedig ar y risgiau allweddol sy'n bygwth eich gallu i gyflawni gwasanaethau o safon a rhedeg busnes effeithiol.

Ein nod yw ychwanegu gwerth drwy wneud argymhellion ymarferol i gefnogi cyflawni gwasanaethau gwell i gwsmeriaid, i leihau biwrocratiaeth a rhannu arfer da yn y sector tai.

Bydd Audit Matters yn eich cefnogi chi i gyflawni gwasanaethau rhagorol a rhedeg busnes effeithiol ac effeithlon.

Ein profiad

Mae Audit Matters yn dîm o **arbenigwyr** archwilio mewnol ac mae pob un yn dod â thoreth o **wybodaeth a phrofiad** a gafwyd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn y lefel uchaf o wasanaeth.

Fel cyfrifwyr ac archwilwyr a **staff proffesiynol tai â chymwysterau proffesiynol llawn** (ACCA, ICAEW a CIPFA ac IIA - Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon), mae gan y tîm gymysgedd o sgiliau ac mae'n darparu gwasanaethau **i Gymdeithasau Tai yn unig**, a'r rheiny o amrywiaeth o feintiau a chymhlethdod mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.

Y Gwasanaethau rydym yn eu darparu

Sicrwydd:

Ein prif wasanaeth yw darparu sicrwydd i chi ar effeithiolrwydd eich amgylchedd rheoli o ran cefnogi eich sefydliad i gyflawni ei gynllun busnes, tra byddwch yn darparu gwasanaethau o ansawdd drwy redeg busnes effeithiol. Câi ein gwasanaethau eu cyflawni mewn modd a fyddai'n ateb eich gofynion rheoleiddio.

Ymgynghoriaeth:

Rheoli Risg	adolygu eich strategaeth rheoli risg; cynorthwyo wrth ddatblygu strategaethau rheoli risg a mapiau risg; darparu hyfforddiant ar reoli ar reoli risg i staff ac aelodau'r Bwrdd.
Archwiliad IS/IT	adolygu seilweithiau, trefniadau diogelwch, cydymffurfio â deddfwriaeth a chyngor ar reoli prosiectau.
Twyll	ffurfioli polisïau a gweithdrefnau ar dwyll ac ar ymateb i dwyll; ymchwiliadau.
Llywodraethu	hyfforddiant i wella effeithiolrwydd Pwyllgorau a Byrddau Archwilio.
Diogelu Data	adolygiad gan arbenigwyr o'ch polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
Iechyd a Diogelwch	adolygiad gan arbenigwyr o'ch polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
Rheoleiddio	hyfforddiant Atodlen 1.

Gweithio mewn partneriaeth â chi

Mae Audit Matters yn darparu gwasanaeth cost effeithiol o safon uchel. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chi i ddatblygu cydberthynas gref sy'n eich cefnogi i:

- Gyflawni gwasanaethau sy'n ateb disgwyliadau eich cwsmeriaid
- Ateb gofynion rheoleiddio ac adrodd i'r Pwyllgor Archwilio
- Nodi a rheoli risgiau.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'ch Pwyllgor Archwilio, aelodau'r Bwrdd a chydweithwyr i ddatblygu cydberthynas effeithiol a fydd yn cefnogi uwch reolwyr i wella cyflawni'r gwasanaeth.

Byddwn yn cadw mewn cysylltiad cyson â swyddogion allweddol, yn tynnu sylw at arferion da, yn sicrhau bod rheolaethau effeithiol ar waith ac yn adolygu ein gwasanaeth yn barhaus drwy ddefnyddio arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid.

Ein Gwerthoedd:

Gonestrwydd

Arloesedd

Parch

Rhagoriaeth

Partneriaeth

Y safonau a ddefnyddiwn

Defnyddiwn foeseg a safonau'r Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA- y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) a chyrff proffesiynol eraill megis Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAWE), Cymdeithas Cyfrifwyr Siartredig (ACCA) a Bwrdd Arferion Archwilio (APB).

Cedwir holl wybodaeth a ffeiliau cleientiaid ar weinyddwr diogel ac rydym yn defnyddio meddalwedd amgryptio ar bob gliniadur a ddefnyddir gan y tîm. Rydym yn cydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf Diogelu Data. Rhwymir tîm Audit Matters gan God Ymddygiad a Chod Moeseg eu cyrff proffesiynol priodol.

Costau

Fel gwasanaeth dielw mae Audit Matters yn ymdrechu i gadw costau'n isel tra bo'n darparu gwasanaethau arbenigol i'ch sefydliad.

Mae ein cyfraddau cyfunol yn cynnwys treuliau felly ni fydd unrhyw daliadau cudd ac mae anfonebu bob chwarter yn golygu y gallwch rannu'r gost drwy gydol y flwyddyn.

Geirdaon

Gall Audit Matters ddarparu gwasanaeth cost effeithiol a phroffesiynol ichi a bydd yn eich galluogi i redeg busnes effeithlon ac effeithiol fel y byddai ein cleientiaid presennol yn cytuno:

"Roedd gwasanaeth Audit Matters yn drylwyr, proffesiynol a threfnus ac fe'i cyflawnwyd gan achosi'r ymyrraeth resymol leiaf i'n busnes. Mae'r adroddiadau a ddarperir gan y tîm yn glir ac mae'r tîm wedi sefydlu cydberthynas gref gyda rheolwyr a chyda ein Pwyllgor Archwilio. "

David Hall
Cyfarwyddwr Ariannol ac Adnoddau
Greenfields Community Housing Ltd

"Rydym wrth ein bodd gyda'r gwasanaeth rydym wedi'i dderbyn gan Audit Matters. Dyma'r drydedd set o archwilwyr mewnol a ddefnyddiwyd gennym a nhw yw'r rhai gorau o bell ffordd"

Tony Stacey
Prif Weithredwr
Cymdeithas Tai De Swydd Efrog

"Bu Gwasanaethau Grwp Orbit yn broffesiynol a rhagweithiol wrth ddelio â gofynion archwilio mewnol Cymdeithas Tai Keniston."

Nevil Osborne
Cyfarwyddwr
Cymdeithas Tai Keniston

auditmatters

Am ragor o wybodaeth ar Audit Matters
a'r gwasanaethau ar gael, cysylltwch â:

Afzal Ismail
Pennaeth Archwiliadau Mewnol
Ffôn: 024 7643 8126

Mike Holland
Rheolwr Archwiliadau
Ffôn: 024 7643 8128

Michelle Roe
Rheolwr Archwiliadau
Ffôn: 024 7643 8127

Audit Matters
Orbit Group Ltd
Garden Court, Harry Weston Road
Binley Business Park, Binley
Coventry CV3 2SU

Ffacs: 024 7643 8135

www.orbitservices.org.uk

If you would like this document printed in another language, Braille, on audio tape or in large print please contact us on 024 7643 8000.

part of the orbit group building brighter futures... for people and communities

Rhif Cofrestredig Awdurdod Gwasanaethau Tenantiaid L4123, Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus, 1965. Rhif cofrestredig 28503R
Mae Orbit Group Ltd, Orbit South Housing Association Ltd, Heart of England Housing Associaton Ltd a Heart of England Housing & Care Ltd i gyd yn elusennau wedi'u heithrio.